Datganiad i'r Wasg

Ffôn: Ymholiadau'r Cyfryngau: 020 7210 8643
HM Inspectorate of Probation • Second Floor • Ashley House • 2 Monck Street • London • SW1P 2BQ
Ffôn: 020 7035 2202 • Ffacs: 020 7035 2237
E-bost: HMIP.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk • http://inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation/

Arolygiad annibynnol o waith prawf a throseddau ieuenctid

GWAHERDDIR TAN 11/01/08
CYHOEDDI ADRODDIAD AROLYGU
TÎM TROSEDDAU IEUENCTID SIR BENFRO

Heddiw, cyhoeddwyd adroddiad diweddaraf y pedwerydd cyfnod o arolygiadau Timau Troseddau Ieuenctid (TTI) yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliodd tîm arolygu amlasiantaeth arolygiad o Dîm TTI Sir Benfro yng Ngorffennaf 2007.

Dywedodd Andrew Bridges, Prif Arolygydd Prawf EM:

"Arolygwyd TTI Sir Benfro yn ystod pedwerydd cyfnod y rhaglen arolygu. Cawsom TTI nad oedd yn cyflawni ei ddyletswyddau craidd i safon dderbyniol. Ni chynigiwyd arweiniad strategol gan Fwrdd y Rheolwyr, nad oedd llawer yn ei fynychu. Nid oedd swyddogaethau a dyletswyddau yn amlwg.

Roedd pryder arbennig am ansawdd asesiadau Asset, asesiadau risg, cynllunio ac adolygu ymyriadau. Yn gyffredinol nid oedd gwaith yn cael ei wneud yn unol â safonau cenedlaethol. Ni aethpwyd i'r afael â materion o wendid a diogelu mewn modd effeithiol.

Ein hasesiad cyffredinol o berfformiad y TTI oedd nad oedd yn cyflawni gofynion lleiafswm ym mwy neu lai pob maes ac roedd nifer o ddiffygion arwyddocaol. O ganlyniad, bydd y TTI yn destun ail-arolygiad tua 12 mis ar ôl y cyhoeddi. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o feysydd lle gellir gwella ond mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar ddyletswyddau craidd y TTI ac ar sicrhau bod Bwrdd y Rheolwyr mewn sefyllfa i ddarparu arweiniad, i fod yn atebol ac i fonitro cynnydd."

Prif ganfyddiadau'r adroddiad:

Gwaith yn y llysoedd

- Roedd y TTI yn darparu gwasanaethau priodol i'r llysoedd ond nid oedd yna unrhyw gyfleoedd i hyfforddi ar y cyd ac ychydig o gyfleoedd i gynnig adborth i ddedfrydwyr. Ychydig o ddefnydd a wnaed o gefnogaeth/oruchwyliaeth i rai ar fechnïaeth.
- Darparwyd adroddiadau cyn dedfrydu o fewn terfynau amser cenedlaethol ond roedd pryderon difrifol ynghylch eu hansawdd.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

- Roedd perthynas dda yn bodoli rhwng y TTI ac asiantaethau eraill wrth ddarparu ystod o brosiectau ataliol. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd asesiadau ac ni roddwyd cydnabyddiaeth i anghenion iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac ni chyfeiriwyd achosion yn briodol. Roedd ganddynt nifer gyfyngedig o gynlluniau ymyrryd.
- Roedd ansawdd yr asesiadau Asset, yn benodol yng nghyd-destun Perygl o Niwed a gwendid, ar blant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu yn annigonol. Roedd gan y TTI ystod o ymyriadau ond

roedd cynllunio ymyriadau yn gyfyngedig. Ychydig o ymyriadau a dargedwyd yn benodol at ferched ifanc neu i fynd i'r afael ag anghenion amrywiaeth penodol. Nid oedd cysondeb y cyswllt â phlant a phobl ifanc yn foddhaol.

- Er gwaethaf ystod o wasanaethau iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, roedd diffyg canolbwyntio ar y rhain yn arwain at gyfeiriadau ac ymyriadau prin. Er bod mynediad uniongyrchol i gronfa ddata cleientiaid gwasanaethau plant, ni wnaed gwiriadau bob tro ar y cyfeiriad cyfredol. Ni chofnodwyd y wybodaeth a gasglwyd mewn digon o fanylder.
- Ni nodwyd materion gwendid a diogelu bob amser. Ychydig iawn o waith rhianta oedd yn cael ei wneud. Roedd gostyngiad arwyddocaol yn y nifer a oedd yn cyrraedd y system troseddu ieuenctid am y tro cyntaf ac yng nghyfraddau ail-droseddu'r TTI.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion gwarchod

- Roedd asesiadau Asset yn annigonol ar lefel warchod a chymunedol yng nghyd-destun cydymffurfio â safonau, ansawdd ac adolygiad cenedlaethol. Ni ddarparwyd gwybodaeth briodol ar gyfer sefydliadau diogel. Ychydig o adborth a gafwyd gan wasanaethau iechyd, addysg, hyfforddiant neu blant. Roedd rheolwyr achos ynghlwm wrth baratoi cynlluniau hyfforddi a sylwyd ar gyfathrebu da gyda sefydliadau diogel wrth gyflawni'r cynlluniau hyn. Ymwelwyd â phobl ifanc yn unol â safonau cenedlaethol. Roedd materion diogelu yng nghyd-destun gwasanaethau plant, paratoi cynlluniau gwendid ac ansawdd yr ymyriadau yn nhermau cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Prin oedd y sylw a roddwyd i faterion amrywiaeth.
- Yn ystod cyfnod cymunedol eu dedfryd, mynediad cyfyngedig oedd gan blant a phobl ifanc i iechyd, addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth. Nid oedd amlder y cyswllt a gweithredu gorfodol yn cyd-fynd â safonau cenedlaethol. Roedd tystiolaeth anecdotaidd yn dangos canlyniadau cadarnhaol ond roedd diffyg yr arolygiadau yn ei gwneud hi'n anodd cynnig tystiolaeth o newid cadarnhaol. Yn ystod cyfnod cymunedol eu dedfryd, nid oedd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc wedi cydymffurfio â'u gorchmynion ac wedi ail-droseddu.

Gwaith gyda dioddefwyr a chyfiawnder adferol

- Roedd trefniadau cadarn i gael mynediad i a chadw gwybodaeth am ddioddefwyr. Cytunwyd ar brotocolau gyda nifer o fusnesau lleol ynglŷn â'r ffordd i weithredu pan fyddant yn dioddef trosedd ac roeddynt yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth a dderbyniont. Ni aethpwyd i'r afael â materion defnyddwyr yn ddigonol drwy waith y TTI a dim ond chwarter y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran mewn unrhyw ymyriad iawndal neu gyfiawnder adferol, er bod yna ystod eang o ymyriadau iawndal ar gael.

Rheolwyr

- Nid oedd llawer yn mynychu Bwrdd y Rheolwyr. Roedd y Bwrdd wedi dechrau monitro perfformiad ond wedi darparu arweiniad strategol cyfyngedig iawn i'r TTI. Mynegwyd pryderon gan rai aelodau o'r Bwrdd am gyfraniadau adnoddau ac roedd y Bwrdd yn chwarae rhan fach yn argymell cyllideb a monitro gwariant.
- Roedd Rheolwr y TTI yn cymryd rhan ym mhob grŵp strategol priodol. Roedd strwythur sefydliadol y TTI, diffyg wrth ddyrannu adnoddau a pholisïau llwyth gwaith yn golygu ei bod hi'n anodd asesu a oedd yn derbyn adnoddau digonol. Roedd goruchwylio ac arfarnu staff yn anghyson a chyfleoedd hyfforddi wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd diffyg gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer staff ar secondiad a staff yn gweithio mewn nifer o brosiectau a oedd yn cael eu defnyddio gan y TTI.

NODIADAU I OLYGYDDION

1. Cynhaliwyd arolygiad o TTI Sir Benfro yng Ngorffennaf 2007.

2. Cyfanswm poblogaeth Sir Benfro oedd 114,131, a gyfrifwyd yng Nghyfrifiad 2001. O'r boblogaeth hon, roedd 10.6% rhwng 10-17 oed. Roedd hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 10.4%.

3. Mae naw arolygiaeth yn cynnal arolygiadau o Dimau Troseddau Ieuenctid. Mae'r rhain yn cynnwys y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol, Estyn (Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Arolygiaeth Carchardai EM, Arolygiaeth Prawf EM, y Swyddfa dros Safonau mewn Addysg (Ofsted) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

4. Dechreuodd y rhaglen arolygu TTI ym Mehefin 2003. Bydd pob un o'r 155 TTI yng Nghymru a Lloegr yn cael eu harolygu dros gylch o bum i chwe blynedd.

5. Cynhelir yr arolygiad yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i arolygu cymesur a chydlynol mewn llywodraeth leol, a gaiff ei lywio gan ganlyniadau Asesu Perfformiad Cynhwysfawr a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Datblygwyd rhaglen felly sy'n:
   - gymesur o ran risg ac sy'n arolygu'r meysydd gwaith hynny lle nad yw tîm yn perfformio'n dda ynddynt ar gyfer rhannu arfer da yn unig
   - ategu, ac yn cael ei gydlynu â, rhaglenni arolygu eraill, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyrdd, *Mae Pob Plentyn yn Bwysig* (2003)
   - cymryd ystyriaeth o ddatblygiadau diweddar TTI fel sefydliadau.

6. Datblygwyd safonau a meini prawf cynhwysfawr i gwmpasu cyfnod cyntaf yr arolygu, gan ganolbwyntio ar
   - blant a phobl ifanc yr ystyrir eu bod mewn perygl o droseddu
   - plant a phobl ifanc sy'n troseddu
   - rhieni/gofalwyr a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu neu sy'n troseddu
   - gwaith gyda dioddefwyr troseddau.
   - Trefniadau rheoli a phartneriaeth.